Hawdd ei Ddeall

ADSS Cymru
Yn arwain Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
Leading Social Services in Wales

# Gofal Cymdeithasol a gwrth-hiliaeth yng Nghymru

## Cael gwared o hiliaeth o'r gweithle



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei hysgrifennu gan **Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru)**. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Darparu gofal cymdeithasol mewn Cymru Gwrth-hiliol – Crynodeb Gweithredol**'.

**Tachwedd 2024**

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma ddogfen hawdd ei deall. Ond efallai y byddwch chi angen help i'w darllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Mae'r geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** yn gallu bod yn anodd eu deall. Mae beth mae'r holl eiriau mewn glas yn ei feddwl ar **dudalen 18**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru.** Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

**Gwefan:** www.adss.cymru/cy

**E-bost:** contact@adss.cymru

**Ffôn:** 01443 742641

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei deall gan ddefnyddio Photosymbols. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247.

# Cynnwys

**Beth sydd yn y llyfryn yma ........................................................ 4**

Hiliaeth ac adrodd ........................................................... 11

Polisïau a gweithdrefnau .................................................... 12

Beth fydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei wneud.............................................................. 14

Beth sydd angen i gynghorau lleol ei wneud.................. 16

**Geiriau Anodd ..................................................................18**

# Beth sydd yn y llyfryn yma




Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynllun o'r enw **Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol**.



Mae'n meddwl gwneud yn siŵr bod Cymru'n lle **gwrth-hiliol** ac nad yw'n dioddef **hiliaeth**.



Mae **hiliaeth** yn meddwl trin pobl yn wael neu'n annheg oherwydd eu bod yn dod o hil neu grŵp ethnig gwahanol.




Mae **gwrth-hiliaeth** yn meddwl gwneud rhywbeth am **hiliaeth** a sefyll yn ei erbyn. Mae'n meddwl gwneud newidiadau fel bod pobl yn cael eu trin yn deg ac mae eu bywydau yn well.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymr ofyn  i ni ddarganfod pa staff sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol sydd wedi profi **hiliaeth**. Roedd dwy ran i'r gwaith yma:



1. Edrych ar **hiliaeth** yn y gweithle a beth ddigwyddodd o ganlyniad.




2. Edrych ar y polisïau sydd gan gynghorau lleol am staff yn datblygu i fod mewn swyddi rheoli.




Adroddiad am rif 1 yn unig ydy hwn.



Roedd yn edrych ar brofiadau staff o **gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig**. Mae'n edrych ar beth sydd yn gallu cael ei wneud i wella pethau.

Mae **cefndiroedd lleiafrifoedd ethnig** yn meddwl cefndiroedd nad ydyn nhw yn wyn Prydeinig.




Fe wnaethon ni wneud arolwg ar-lein. Fe gawson ni 500 o ymatebion.



Roedd cyfweliadau hefyd gyda staff o **gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig**.

Fe gafodd 2 grŵp ei sefydlu i helpu i arwain yr ymchwil yma:



1. **Grŵp Cyfeirio Prosiect** – roedd y grŵp yma yn cynnwys pobl o wahanol sefydliadau. Gan gynnwys:



- cynghorau lleol



- a phobl sy'n codi llais dros y rhai sydd wedi profi **hiliaeth** mewn gofal cymdeithasol.



2. **Grŵp Mewnwelediad Gweithwyr** – grŵp o 10 o bobl o **gefndiroedd ethnig lleiafrifol** oedd hwn. Roedd ganddyn nhw brofiad o **hiliaeth** mewn gofal cymdeithasol.




Efallai na fydd pawb yn hoffi rhai o’r geiriau a’r termau rydyn ni’n eu defnyddio yn ein hadroddiad.




Rydyn ni wedi dilyn canllawiau gan Lywodraeth Cymru am beth i’w ddefnyddio. Ond rydyn ni hefyd yn deall bod angen i ni barhau i wrando ar bobl a gwneud newidiadau, fel ein bod yn cael y geiriau’n iawn.

Fe wnaeth yr astudiaeth ddarganfod bod pobl yn profi **hiliaeth** mewn pedair prif ffordd:



- Trwy sylwadau gan bobl maen nhw yn gweithio gyda nhw.



- Sut mae rhywun wedi cael ei drin gan staff neu reolwr.



- Ymddygiad **hiliol** gan bobl sy'n derbyn cymorth gofal cymdeithasol neu deulu.



- Sylwadau **hiliol** i bobl sy'n derbyn cymorth gofal cymdeithasol gan staff.

Rhai o'r sylwadau mae staff wedi eu cael staff oedd:



- Sylwadau am ymddangosiad. Er enghraifft, lliw y croen.
- Anghwrteisi.
- Bod yn sarhaus.
- Dim dealltwriaeth.
- Lledaenu negeseuon **hiliol** ar-lein.
- Dydy rhai pobl sy'n derbyn cymorth gofal cymdeithasol ddim yn derbyn cefnogaeth gan rai gofalwyr.



Dim ond 12 o'r 22 cyngor lleol yng Nghymru wnaeth gymryd rhan yn yr arolwg yma. Felly, does gennym ni ddim darlun llawn o beth sy'n digwydd.



Yn aml, dydy **hiliaeth** ddim yn cael ei edrych i mewn iddo na dim camau yn cael eu cymryd.

# Hiliaeth ac adrodd



Doedd gan gynghorau lleol ddim llawer o enghreifftiau o **hiliaeth** i'w hadrodd.



Weithiau mae'n cael ei drafod pan fydd yn digwydd. Ond weithiau dydy e ddim.



Mae'n ymddangos nad oes llawer o achosion o **hiliaeth** yn cael eu hadrodd o gwbl. Un rheswm am hyn ydy bod pobl yn teimlo na fydd dim yn digwydd.



Hefyd, yn anffodus mae rhai staff yn dweud eu bod nhw yn 'gyfarwydd â'r peth' yn digwydd.

# Polisïau a gweithdrefnau



Mae polisi yn set o reolau ar gyfer sut y dylid gwneud pethau. Mae gweithdrefn yn set o gamau gweithredu neu'n ffordd benodol o wneud rhywbeth.




Mae gan sefydliadau weithdrefnau ar waith ar gyfer delio â chwynion.  Ond mae'r staff yn meddwl nad ydyn nhw'n gweithio'n dda.




Maen nhw'n dweud  nad ydy **hiliaeth** yn cael ei ddeall na'i gymryd o ddifrif. Does dim  camau gweithredu yn cael eu cymryd a dydy pobl ddim yn cael eu cefnogi.



Un rheswm mawr pam nad ydy **hiliaeth** yn cael ei adrodd ydy oherwydd bod staff yn credu nad ydy'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gweithio.



Mae pobl hefyd yn poeni am adrodd am **hiliaeth** rhag ofn y bydd yn effeithio ar eu swydd. Neu sut maen nhw'n cael eu trin gan eraill.



Roedd pobl yn meddwl pethau gwahanol am faint oedd yn cael ei wneud i ddilyn **Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru.** Mae llawer o waith i'w wneud.

# Beth fydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei wneud



- Siarad am yr astudiaeth gydag arweinwyr eraill i benderfynu beth arall sydd yn gallu cael ei wneud i gael gwared  ar **hiliaeth**.



- Cael hyfforddiant i'r staff.



- Gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn deall **hiliaeth** yn llawn. A sut i ddelio ag ef.




- Annog pobl i roi gwybod am **hiliaeth**. A gwneud yn siŵr bod pob adroddiad yn cael ei ddilyn.




- Gwneud yn siŵr bod pobl sy'n derbyn cymorth gofal cymdeithasol a theuluoedd yn gwybod nad ydy **hiliaeth** yn cael ei ganiatáu. Rhoi gwybodaeth i helpu i wella dealltwriaeth.



- Edrych ar sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i ofal cymdeithasol, i wneud yn siŵr eu bod yn **wrth-hiliol** hefyd.




- Ysgrifennu am y gwaith yma yn yr adroddiad blynyddol y mae pob Cyfarwyddwr yn ei wneud.

# Beth sydd angen i gynghorau lleol ei wneud




- Gwneud yn siŵr bod yr holl staff yn deall **hiliaeth** a'i effeithiau.



- Dangos na fyddan nhw'n cefnogi unrhyw **hiliaeth**.




- Edrych ar eu polisïau a'u gweithdrefnau i wneud yn siŵr eu bod yn delio â **hiliaeth** yn dda.



- Rhoi cynnig ar y **fframwaith** rydyn ni wedi'i wneud.  Nod y **fframwaith** ydy dysgu o achosion o **hiliaeth** a gwneud gwelliannau. Mae **fframwaith** yn ddogfen sy'n arwain sut a pham y dylid gwneud rhywbeth.




- Edrych i weld oes digon o gefnogaeth i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan **hiliaeth** a'r rhai sy'n adrodd amdano.



- Gweithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu dysgu am **hiliaeth**. A'r ffyrdd gorau o weithio.




- Edrych ar effeithiau'r newidiadau yma mewn 1 flwyddyn.




Rydyn ni eisiau gweithio gyda chynghorau lleol, darparwyr gofal cymdeithasol ac eraill i roi'r pethau yma ar waith. A chyflawni'r nod o **Gymru Gwrth-hiliol**.

# Geiriau Anodd

## Cefndiroedd ethnig lleiafrifol

Mae hyn yn meddwl cefndir sydd ddim yn wyn Prydeinig.

## Gwrth-hiliaeth

Mae gwrth-hiliaeth yn meddwl gwneud rhywbeth am hiliaeth a sefyll yn ei erbyn. Mae'n meddwl gwneud newidiadau fel bod pobl yn cael eu trin yn deg ac mae eu bywydau yn well.

## Hiliaeth

Mae hiliaeth yn meddwl trin pobl yn wael neu'n annheg oherwydd eu bod yn dod o hil neu grŵp ethnig gwahanol.